



monmouthshire
sir fynwy



MAETHU THERAPIWTIG

yn Sir Fynwy gyda
Fy Nhîm Cefnogi (MyST)



Gwasanaeth Bwrdd Partneriaeth Gwent

Beth yw MyST?

Mae MyST (Fy Nhîm Cefnogi) yn bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n gweithio i helpu plant sy'n derbyn gofal i fedru aros yn eu cymunedau lleol. Mae'n gweithio'n ddiwriad ar draws asiantaethau statudol i roi amgen effeithlon i ofal preswyl ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth iawn sy'n derbyn gofal. Comisiynir MyST gan Fwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd Gwent. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi sefydlu yn Nhorfaen a Chaerffili a bydd yn rhanbarthol ar draws Gwent i gyd erbyn 2021.



Pam fod MyST yn cyfrif?

Mae'r plant hynny sy'n derbyn gofal mewn amgylcheddau teulu ac yn eu cymunedau lleol yn manteisio o fwy o gyfleoedd datblygu a meithrin gwytnwch yn cynnwys cadw perthynas gyda ffrindiau, brodyr a chwirydd, rhieni ac aelodau teulu estynedig y byddai symudiadau sylweddol fel arall yn ymyrryd arnynt. Mae gofal a gaiff ei ddarparu gan un tîm cyson dros gyfnod hir hefyd yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu ymlyniadau gwirioneddol, sy'n profi mor hanfodol i'w datblygiad ar gyfer y dyfodol.

Gan weithio gyda phawb sy'n ymwneud â bywyd person ifanc, mae'r adnoddau angenrheidiol gennym i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu teuluoedd. Mae gwneud ymrwymiad hirdymor a gweithio mewn gwir bartneriaeth gyda chydweithwyr proffesiynol, ac yn bwysicaf oll gyda'r bobl ifanc eu hunain a'u teuluoedd, yn creu adnodd pwysig o wybodaeth, sgiliau, creadigrwydd a phenderfyniad.



Sut y gallaf helpu?

Rydym wrthi'n recriwtio gofalwyr maeth Therapiwtig MyST yn eich ardal. Dyma ychydig o bwyntiau ar sut beth yw bod yn ofalwr maes Therapiwtig MyST:

- Cewch gyfle i roi profiadau cadarnhaol a lefel o sefydlogrwydd i'r person ifanc.
- Gallwch helpu i roi dylanwad cadarnhaol i'r person ifanc a hyrwyddo eu llesiant.
- Gallwch weld y newid cadarnhaol yng nghymeriad a dewisiadau bywyd person ifanc.
- Cewch fod yn rhan o dîm aml-asiantaeth creadigol a deinamig fydd yn eich cefnogi gyda hyfforddiant a goruchwyliaeth.

Pa nodweddion ydych chi'n meddwl fyddai'n fy ngwneud yn ofalwr MyST da?

Pobl sy'n fodlon ystyried yn gyson ar lefel y gofal a roddant, gan dderbyn efallai na fyddant bob amser yn cael pethau'n iawn ond yn dysgu.

Bydd angen i chi fod ag elfen o natur chwareus, cydsynio, chwilfrydedd a chydymdeimlad, tra'n darparu'r gofal gorau posibl i'r plant hyn. Mae angen i chi feddwl fod ansawdd y gofal a roddwch yr hyn a ddisgwyliech i'ch plentyn eich hun. Mae angen i chi fod yn barod i dderbyn profiad gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu er budd gorau'r plentyn tra'n gweithio fel rhan o dîm o amgylch y plentyn.

Pam dod yn ofalwr MyST?

- Pecyn gwych o gydnabyddiaeth ariannol yn dechrau ar £21,166 y flwyddyn a gall gynyddu i £24,313 y flwyddyn, yn ogystal â lwfansau a gaiff eu talu ar gyfer y plentyn neu berson ifanc.
- Gwasanaeth ar-alwad 24 awr ar gael 365 diwrnod y flwyddyn.
- Pecyn hyfforddiant helaeth yn cynnwys grŵp cymorth gofalwyr MyST, goruchwyliaeth clinigol uni-i-un, rhan o gyfarfodydd achos a hyfforddiant arall a gyflwynir gan y tîm.
- Eich Ymarferydd Therapiwtig Arweiniol neilltuol eich hunan (mae gan ein Ymarferwyr Therapiwtig Arweiniol lwythi achos bach i'w galluogi i roi cefnogaeth ddwys i'w lleoliadau)
- Bod yn rhan o rwydwaith a thîm ehangach
- Bod yn rhan o dîm angerddol i helpu'r plant mwyaf difreintiedig, gan ddefnyddio ymagwedd arloesol at iechyd meddwl plant.



Y gwahaniaeth y gall MyST ei wneud...

“Diolch i chi am neithiwr, rwy’n ddiolchgar iawn, mae cael rhywun i siarad â nhw yn help mawr”

Aelod o deulu geni am wasanaeth “Ar Alwad” MyST

“Mae gweithio wrth ochr MyST a bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda’r tîm wedi’i gwneud yn bosibl i mi rannu fy ngwybodaeth a fy syniadau ac rwy’n teimlo fel person gwerthfawr o fewn rhwydwaith cefnogaeth y plentyn. Rwy’n teimlo fod fy llais yn cael ei glywed ac y caiff fy set sgiliau fel gofalwr maeth ei werthfawrogi”

Gofalwr Maeth Awdurdod Lleol Blaenau Gwent a gefnogir gan MyST

“Mae MyST yn wasanaeth gwerthfawr iawn. Mae’n atal plant rhag gorfod mynd i ofal preswyl. Mae’r gefnogaeth a’r hyfforddiant yn gynhwysfawr ac yn rymus iawn. Mae’r tîm yn wych ac mae medru helpu’r plant hynny yn ein cymunedau sydd fwyaf ei angen yn rhoi boddhad mawr”

Gofalwr Maeth Therapiwtig MyST Torfaen

